**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
(13.09.16)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Mair Rowlands

**Pwnc:** Adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

---

**Cyflwyniad**

Fel mae'r aelodau yn ymwybodol, mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Cyngor wedi adnabod y maes pwysig hwn fel maes blaenoriaeth ac wedi adolygu trefniadau corfforaethol er mwyn sicrhau bod trefniadau cadarn ac addas yn eu lle.

Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn rhoi sylw penodol i faterion corfforaethol o ran diogelu. Mae'r blaenoriaethau yma hefyd wedi eu hymgorffori o fewn Cynllun Strategol y Cyngor.

Mae trefniadau mewn lle i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion i adrodd i'r Cabinet ar waith y Panel ddwywaith y flwyddyn. Fel rhan o'r trefniant hwnnw mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwaith y Panel ar gyfer blwyddyn 2015 / 16.

Cadeirydd y Panel yw'r Cynghorydd Mair Rowlands ac mae hi'n cael ei chefnogi gan Morwena Edwards sef Cyfarwyddwr Statudol sydd â chyfrifoldeb am y maes diogelu. Yn ogystal mae'r Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Gareth Thomas yn aelodau o'r Panel oherwydd eu dyletswyddau yn y meysydd oedolion a phlant. O ran swyddogion, mae sawl Pennaeth yn aelodau o'r Panel (megis Addysg, Oedolion Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Chefnogaeth Gorfforaethol) ac mae'r swyddog monitro hefyd yn aelod o'r Panel.

I gefnogi gwaith y Panel mae Grŵp Gweithredol yn bodoli. Pwrpas y Grŵp hwn yw gweithredu'r rhaglen waith a hefyd ymdrin â materion gweithredol. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys pencampwr diogelu o bob adran o'r Cyngor. Mae Cadeirydd y grŵp Gweithredol hefyd yn aelod o'r Panel Strategol.

Prif ffocws y trefniadau uchod yw sicrhau bod gweithdrefnau corfforaethol diogelu'r Cyngor yn effeithiol ac yn gadarn. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd felly ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'r trefniant hwn yn cynnig sicrwydd i'r Cabinet o berfformiad y Cyngor o ran gweithredu trefniadau diogelu corfforaethol, yn hytrach nac adrodd ar berfformiad yr awdurdod yn ymarfer ei swyddogaethau statudol o ran diogelu plant ac oedolion.

Mae trefniadau eraill yn bodoli, megis y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol hyn. Mae'r Byrddau hyn yn statudol ac yn gweithredu ar draws asiantaethau, gyda chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol.

Mae cylchoedd gorchwyl y byrddau diogelu hyn yn amlinellu eu pwrpasau fel a ganlyn:

***Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru***

*(1). Bydd y Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn gweithio i gyflawni'r amcanion statudol fel y nodir ym mharagraff 1, adran 135 o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014*

*Amcanion y Bwrdd Diogelu yw –*

- *(a) I amddiffyn plant yn ei ardal sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed, a*
- *(b) Atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.*

*(2). Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) yn darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol ar gyfer atal cam-drin ac esgeuluso plant, ac amddiffyn plant sydd wedi cael eu cam-drin neu sydd wedi esgeuluso diogelu plant a phobl ifanc ar draws gogledd Cymru.*

*(3). Bydd BDPGC yn rhoi sylw i bob llwybr i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys sicrhau parodrwydd yr holl asiantaethau partner i gyflawni uchelgais y Bwrdd; gan wneud y gwaith o atal yn gyfrifoldeb ar bawb; ac*

*amddiffyn y mwyaf diamddiffyn; creu amgylchedd wrthwynebus ar gyfer troseddwyr a gweithredu i newid ymddygiad a dealltwriaeth y rhai sy'n cam-drin neu esgeuluso plant.*

***Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru***

*(1). Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) yn rhagweithiol wrth amddiffyn y rheini sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac nad oes ganddynt y galluedd i amddiffyn eu hunain, ble bynnag y maent wedi'u lleoli. Byddwn hefyd yn gweithio i atal oedolion yng ngogledd Cymru sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth ond heb y galluedd i amddiffyn eu hunain, rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.*

*Bydd BDOGC yn gweithio i gyflawni'r amcanion statudol fel y maent wedi'u nodi ym mharagraff 2, adran 135 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.*

*(2). Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) yn darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol ar gyfer atal cam-drin ac esgeuluso Oedolion sydd mewn perygl, sydd wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso.*

*(3). Bydd BDOGC yn rhoi sylw i bob llwybr i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys sicrhau parodrwydd yr holl asiantaethau partner i gyflawni uchelgais y Bwrdd; gan wneud y gwaith o atal yn gyfrifoldeb ar bawb; ac amddiffyn y mwyaf diamddiffyn.*

Mae'r ddau fwrdd statudol dan sylw, 'Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru' a 'Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru', wedi cyflwyno adroddiad ar eu gwaith a thybir ei fod yn berthnasol i gymryd y cyfle hwn i atodi'r adroddiad er gwybodaeth i'r Cabinet - Atodiad 1.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gyfrannu at y trefniadau llywodraethu statudol hyn yn rhanbarthol, ac o bryd i'w gilydd bydd angen addasu trefniadau corfforaethol y Cyngor er mwyn adlewyrchu argymhellion y Byrddau Rhanbarthol.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn gywir a theg; mae hefyd yn hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol. Mae'r paragraffau isod yn crynhoi gwaith y Panel.

Mae'r Panel wedi bod yn cadw golwg ar dri prif brosiect sydd hefyd yn derbyn sylw trwy drefniadau rheoli perfformiad arferol y Cyngor:

1. **D1 - Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu** - Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion Gwynedd.
2. **D2 - Diogelu Plant a Phobl Ifanc** - Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu yn y maes plant a phobl ifanc.
3. **D3 - Diogelu oedolion** - Pwrpas y prosiect yma yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.

**D1 - Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu** - Cafodd y rhaglen waith ei chyflwyno i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion ym mis Medi ac ers hynny mae'r Grŵp Gweithredol wedi bod yn gweithredu ar y rhaglen waith honno. Mae'r rhaglen waith yn cael ei gweithredu yn unol â'r disgwyl ond, fel llawer i brosiect, mae'n debyg mai'r elfen o fesur effaith sydd fwyaf heriol. Er mwyn ceisio ymateb i hyn mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu ar gyfer creu trefn i fesur effaith mabwysiadau a chydymffurfio gyda'r polisi, y gwaith o godi ymwybyddiaeth ac effaith yr hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae enghreifftiau wedi eu casglu o weithredu gan staff rheng flaen yn sgil gwell dealltwriaeth o ddiogelu yn ystod y 2 flynedd diwethaf. Mae'r enghreifftiau yn dangos gallu'r gweithlu i adnabod materion diogelu a'u parodrwydd wedyn i weithredu. Mewn ambell i achos mae staff rheng flaen wedi gwneud cyfeiriad diogelu sydd wedi arwain at weithredu pellach. Cynhaliwyd Awdit Ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn ac mae'r canlyniadau yn dangos fod cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth staff ar draws y Cyngor o ran materion diogelu. Ymatebodd 39% o staff y Cyngor sydd â mynediad i gyfrif e-bost i'r awdit a mynegodd 80% ohonynt eu bod yn ymwybodol o bolisi Diogelu y Cyngor; ymatebodd 54% o'r aelodau etholedig i'r awdit a mynegodd 92% ohonyn nhw eu bod yn ymwybodol o'r polisi. Mae hyn yn cymharu a ffigwr ymateb o 16%, gan staff ac aelodau etholedig ar y cyd, pan gynhaliwyd yr awdit yn y flwyddyn 2014/15. Yn ogystal mae'r niferoedd sy'n derbyn y polisi ac yn cwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn golygu fod y neges yn cyrraedd mwy o staff ac ar draws gwasanaethau.

**D2 - Diogelu Plant a Phobl Ifanc** - Cyflwynwyd cynllun gweithredu rhanbarthol y Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru i'r Panel Strategol Diogelu. Mae'r Grŵp Gweithredol yn ystyried y goblygiadau corfforaethol

sydd yn delio o'r rhaglen waith. Rhagwelir y bydd angen codi ymwybyddiaeth a llunio rhaglen waith lleol i ymateb a sicrhau cydymffurfiaeth a'r disgwyliadau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd er mwyn sicrhau ein bod ni fel Cyngor, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth, a thueddiadau 'Ecsploetio Plant yn Rhywiol' *(Child Sexual Exploitation)* yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd mae yn anodd nodi beth yw'r effaith ar blant a phobl ifanc wedi bod gan ei bod yn ddyddiau cynnar o weithredu'r strategaeth.

Yr ail ran o'r prosiect yma yw'r gwaith o gryfhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg. Mae rhaglen waith clir wedi'i llunio ac yn cael ei weithredu. Er mwyn sicrhau fod yr ysgolion yn gwbl glir o'u cyfrifoldebau a bod gweithdrefnau a diwylliant diogelu cadarn yn ysgolion Gwynedd, penodwyd Swyddog Diogelu i'r Adran Addysg, sydd yn weithredol ers Medi 2015. Mae'r meysydd isod wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth:

- Adolygu Hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 1 a Lefel 2
- Adolygu'r polisïau enghreifftiol sydd ar gael i ysgolion yn y maes diogelu, amddiffyn plant ac ymyrraeth gorfforol yng nghyd-destun datblygiadau cenedlaethol a chanllawiau 'cadw'r dysgwyr yn ddiogel'
- Sicrhau fod pob Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu'r polisïau perthnasol
- Bob ysgol i dderbyn ymweliad Diogelu cyn arolwg
- Cytuno ar un strategaeth sirol
- Cytuno ar bolisi Sirol Enghreifftiol
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ''Ecsploetio Plant yn Rhywiol' *(Child Sexual Exploitation)*
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant Radicaleiddio
- Codi ymwybyddiaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

**D3 - Diogelu oedolion** - Pwrpas y prosiect yma yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.

Ymdrechwyd yn ystod y flwyddyn hefyd i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion. Er bod nifer o'r argymhellion sydd ynghlwm a rhaglenni gwaith y maes wedi cael eu gweithredu, mae

gwaith pellach i'w wneud er mwyn cael trefn adrodd glir sydd yn sicrhau trosolwg llawn o'r gwaith. Gyda swyddi Uwch Reolaeth yr Adran bellach mewn wedi eu llenwi mae'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant mewn sefyllfa ble mae modd rhoi mwy o sylw i weithredu'n llawn y prosiect hwn.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal bod angen i ni wella ein trefniadau mewnol o ran gweithredu diogelu yn y maes oedolion yn benodol. Mae Adroddiad Gwerthuso Perfformiad blynyddol yr Arolygaeth Gofal yn tynnu sylw at brosesau diogelu oedolion yn gyffredinol a hefyd trefniadau Atgyfeiriadau Oedolion Agored i Niwed. Cyflwynwyd Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014/15 i'r Cabinet ar y 15.12.15, ac yn dilyn hyn mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau effeithiol a chynaliadwy i'r dyfodol. Bydd cynnig y Pennaeth, a barn y Cyfarwyddwr Statudol, yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet yn fuan.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Panel wedi cytuno i ychwanegu'r agenda "PREVENT" at eu maes gwaith. Hon yw'r rhaglen sydd yn cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref yn ymwneud a cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio.

Mae'r mesurau perfformiad yr ydym yn ei gasglu o ran oedolion a phlant yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2015/16. Gwelwyd ein bod, o'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, wedi llwyddo i reoli'r perygl 97% o'r amser. Ni lwyddwyd i reoli'r perygl 100% o'r amser fel yn 2014/15 gan fod y 3% sy'n weddill wedi gwrthod ymyrraeth neu wedi tynnu'r cais yn ôl. Mae perfformiad y mesur hwn yn gyson gyda gweddill Cymru (97% yn 2015/16), a'r teulu (96% yn 2015/16) o gynghorau tebyg i Wynedd. Yn benodol o ran plant, mae'r asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau awgrymu perfformiad cadarn eto - 97% yn 2015/16 o gymharu â 98% yn 2014/15.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim i'w adrodd

**Camau nesaf ac amserlen**

Dim i'w adrodd

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n dda nodi perfformiad cadarn yn y maes hwn eto, wrth i'r Cyngor fynd i'r afael o ddifri' gyda'r her allweddol o ddiogelu plant ac oedolion bregus. I raddau, wrth gwrs, nid yw'r gwaith hynny byth yn gorffen gan bod yn rhaid bod yn effro yn barhaus. Mae ffocws gorfforaethol y Cyngor ar y maes felly yn bwysig.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma yn grynodeb priodol o waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion ac yn cyfarch yr angen yn ôl y polisi i adrodd yn flynyddol i'r Cabinet ar hyn.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n croesawu'r adroddiad fel cyfle i'r Cabinet dderbyn sicrwydd pellach fod y Panel Strategol Diogelu yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae dyraniad £60,000 un-tro ar gyfer y maes yma yn y Cynllun Strategol 2015-17 a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn ar 9 Gorffennaf 2015, a nodaf nad oes unrhyw argymhelliad o fewn yr adroddiad yma sy'n ddibynnol ar dderbyn adnodd ychwanegol i hyn.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad cynnydd ar ddatblygiad Byrddau Diogelu Gogledd Cymru Ebrill 2016.

**Dogfennau Cefndirol**

Cylch Gorchwyl Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Cylch Gorchwyl Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru